Estyn

Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Ansawdd a pherthnasedd hyfforddiant staff i gyflwyno addysg sylfaenol i oedolion (ASO) a Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE)

Iechyd ar Waith
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

MAWRTH 2010

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- Gwasanaethau addysg awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- Darpariaeth cyflogaeth wedi'i chontractio gan yr adran gwaith a phensiynau yng Nghymru.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **2** |
| **Statws athro cymwys** | **4** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| **Argymhellion** | **7** |
| **Fframweithiau cymhwyster a statws athro cymwys** | **8** |
| **Cymwysterau lefel 3, lefel 4, a lefel 5** | **9** |
| **Cyflwyno cymwysterau addysgu ASO a SSIE** | **10** |
| **Rhwystrau i ymarferwyr sy’n dilyn cymwysterau ASO a SSIE** | **11** |
| **Datblygiad proffesiynol parhaus** | **12** |
| **Dadansoddiad o ymatebion i holiadur athrawon** | **14** |
| **Atodiad 1:  Crynodeb o ymatebion athrawon i’r holiadur** | |
| **Geirfa/cyfeiriadau** | |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | |

## Cyflwyniad

1 Mae Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i Wella Llythrennedd a Rhifedd yng Nghymru, ‘Geiriau’n Galw: Rhifau’n Cyfri’ (Ebrill 2005), yn nodi ymrwymiad i ddatblygu’r gweithlu ymarferwyr yng Nghymru. Mae’r strategaeth yn datgan mai ‘ymarferwyr sydd wrth wraidd darpariaeth dda o ran medrau sylfaenol’. Sgiliau Sylfaenol Cymru sy’n gyfrifol am weithredu a monitro’r strategaeth, ac yn fwy diweddar am gefnogi’r rhwydwaith hyfforddiant athrawon Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) ôl-16. Mae Sgiliau Sylfaenol Cymru yn parhau i ddarparu cymorth ar gyfer athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr i ddatblygu eu medrau proffesiynol.

2 Mae Sgiliau sy’n Gweithio i Gymru, sef y strategaeth a’r cynllun gweithredu ar gyfer medrau a chyflogaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng Ngorffennaf 2008, yn nodi bod angen mwy o ymarferwyr medrau sylfaenol sy’n meddu ar y medrau a’r arbenigedd cywir. Mae’r cynllun gweithredu’n cynnwys ymrwymiad i gyflwyno rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon a hyfforddwyr sy’n cyflwyno addysg sylfaenol i oedolion (ASO) a Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE).

3 Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais yn y cylch gwaith Gweinidogol blynyddol i Estyn ar gyfer 2009-2010 i arfarnu ansawdd a pherthnasedd hyfforddiant staff i gyflwyno ASO a SSIE.

4 Mae’r adroddiad yn canolbwyntio ar athrawon a hyfforddwyr o amrywiaeth o ddarparwyr sy’n cyflwyno ASO a SSIE. Mae’n ystyried ac yn arfarnu’r hyfforddiant staff cyfredol a gynhelir mewn lleoliadau darparwyr. Mae’n archwilio’r rhwystrau rhag cwblhau cymwysterau proffesiynol ASO a SSIE lefel 3 a lefel 4/5 ar gyfer athrawon a hyfforddwyr.

5 Cymerwyd tystiolaeth o holiaduron, adroddiadau arolygu, cyfweliadau gydag athrawon a hyfforddwyr a chyfarfodydd gyda darparwyr mentrau hyfforddiant cenedlaethol.

## Cefndir

6 Roedd adroddiad Moser ym 1999, ‘A Fresh Start’, yn datgan bod diffyg cymwysterau addysgu ac arbenigol perthnasol gan lawer o athrawon a hyfforddwyr mewn ASO a SSIE.

7 Y prif gymhwyster ar gyfer athrawon a hyfforddwyr ar y pryd oedd tystysgrif 9285 City and Guilds. Roedd hwn ar gael ar lefel 3 a lefel 4 fel ei gilydd. Fodd bynnag, fe wnaeth adroddiad Moser gydnabod bod y dull o gyflwyno’r cymhwyster hwn yn amrywio’n sylweddol rhwng y 200 o ganolfannau sydd wedi’u cofrestru i gyflwyno’r dyfarniad.

8 Argymhellodd yr adroddiad y dylid cael cymwysterau newydd ar gyfer addysgu medrau sylfaenol i oedolion.

9 Arweiniodd hyn at gyfres newydd o gymwysterau City and Guilds ar lefelau 2, 3 a 4 mewn llythrennedd, rhifedd a SSIE:

- Tystysgrif Lefel 2 mewn Cymorth Dysgu (9297);
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Cyflwyno Medrau Sylfaenol i Oedolion (9375);
- Tystysgrif Lefel 4 mewn Arbenigwyr Pwnc Llythrennedd Oedolion (9485);
- Tystysgrif Lefel 4 mewn Arbenigwyr Pwnc Rhifedd Oedolion (9486); a
- Thystysgrif Lefel 4 mewn Arbenigwyr Pwnc SSIE (9488).

10 Yn 2005, fe wnaeth Prifysgol Cymru Casnewydd, gyda chyllid a chymorth gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, ddatblygu cymwysterau arbenigol lefel 4 wedi’u teilwra ar gyfer llythrennedd a SSIE yn unol â gofynion y Sefydliad Hyfforddiant Cenedlaethol Addysg Bellach (FENTO). Cafodd y cymhwyster hwn ei ddilysu gan Standards Verification UK (SVUK) o fewn fframwaith Prifysgol Cymru.

11 Datblygwyd cymhwyster lefel 3 City and Guilds yng Nghymru ac fe gafodd ei fabwysiadu gan Loegr a Gogledd Iwerddon yn gwrs pontio ar gyfer y rhai nad ydynt yn barod i ddilyn cymhwyster lefel 4.

12 Mae pob un o’r cymwysterau uchod yn cael eu hadolygu gan Ddysgu Gydol Oes yn y DU (LLUK) ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae City and Guilds wedi ymestyn y dyddiad cofrestru terfynol ar gyfer y rhai sy’n dilyn y cymwysterau hyd at Ragfyr 2010[1].

13 Yn 2009, cyflwynodd Prifysgol Cymru Casnewydd Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) a Thystysgrif Addysg (TA) amser llawn a rhan-amser mewn llythrennedd a rhifedd oedolion neu SSIE ar lefel 5. Yn Lloegr, mae lefel 5 wedi disodli lefel 4 fel y cymhwyster gofynnol ar gyfer athrawon ASO a SSIE. Yng Nghymru, nid oes lefel ofynnol o gymhwyster ar gyfer athrawon ASO a SSIE.

[1] Gwybodaeth anghywir ar ddyddiad cyhoeddi’r adroddiad. Gellir cael manylion am newidiadau gan City and Guilds.

14 Mae Sgiliau Sylfaenol Cymru yn cefnogi'r cymwysterau hyfforddi athrawon ac yn cynnig grantiau hyfforddi bob blwyddyn ar gyfer darparwyr i hyfforddi a gwella medrau eu gweithlu. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y grant wedi bod yn araf yn gwneud hynny mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, mae ceisiadau grant ar gyfer 2009-2010 wedi dangos cynnydd mawr ac yn rhagori ar y cyllid sydd ar gael.

## Statws athro cymwys

15 Ym Medi 2007, cyflwynwyd y rheoliadau ar gyfer Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach yn Lloegr. Mae’r ddeddfwriaeth hon yn diffinio rolau addysgu mewn addysg bellach yn glir ac yn rhoi lefel y cymhwyster y disgwylir i athrawon ei chael ar gyfer pob un o’r rolau hyn. Mae’n rhoi diffiniad o statws cymwys ar gyfer athrawon mewn addysg bellach yn Lloegr ac arweiniad ar y modd y gall athrawon presennol gyflawni statws athro cymwys llawn.

16 Ar ôl cyflwyno’r ddeddfwriaeth hon ar gyfer Lloegr, ffurfiwyd grŵp llywio yng Nghymru i ystyried deddfwriaeth gyfatebol yng Nghymru. Roedd y grŵp llywio yn cynnwys arbenigwyr ym maes addysg bellach ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o’r canlynol: yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS); Fforwm; sefydliadau addysg uwch; darparwyr hyfforddiant yn y gwaith; undebau; colegau addysg bellach; ac ymarferwyr. Argymhellodd y grŵp llywio bolisi sy’n debyg i’r polisi yn Lloegr ond fe’i addaswyd yn unol â chyd-destun Cymru. Mae’r argymhelliad hwn eto i gael ei gadarnhau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Diffiniadau**

17 At ddiben yr adroddiad hwn, defnyddir y diffiniadau canlynol:

- Athrawon yw ymarferwyr sy’n addysgu ASO neu SSIE;
- Hyfforddwyr ac aseswyr yw ymarferwyr sy’n cyflwyno ASO neu SSIE i ddysgwyr mewn lleoliadau gwaith;
- Athrawon galwedigaethol yw ymarferwyr sy’n addysgu pynciau eraill y cwricwlwm ond sy’n cefnogi dysgwyr â’u hanghenion ASO a SSIE;
- Mae ymarferwyr yn cyfeirio at bob un o’r athrawon, yr hyfforddwyr, yr aseswyr a’r athrawon galwedigaethol; a
- Darparwyr yw’r rhai sy’n cynnig y cyrsiau hyfforddi athrawon.

## Prif ganfyddiadau

18 Nid oes gan ymarferwyr a darparwyr dysgu yn y gwaith mewn ASO a SSIE fframwaith cymhwyster cenedlaethol cydnabyddedig. Mae Sgiliau Sylfaenol Cymru yn argymell ac yn hyrwyddo tystysgrif lefel 4 a diploma lefel 5 fel y cymwysterau gofynnol ar gyfer athrawon sy'n arbenigwyr mewn addysgu llythrennedd, rhifedd a SSIE. Fodd bynnag, nid oes diffiniad o'r rôl arbenigol a'r modd y mae'r rôl hon yn wahanol i rôl athro. Nid oes canllawiau yng Nghymru sy'n datgan yn glir y cymwysterau y mae angen i athro/athrawes eu cael er mwyn cael ei (h)ystyried yn gymwys i addysgu ASO a SSIE ac nid oes ystadegau ar gael i roi mesur dibynadwy o'r niferoedd a allai fod yn gymwys.

19 Nid yw'r strwythur cyfredol o gymwysterau ar gyfer ymarferwyr ASO a SSIE yn gweddu'n ddigon da i'r rolau swydd amrywiol y maent yn ymgymryd â nhw. Mae hyfforddwyr ac aseswyr yn y gwaith, athrawon galwedigaethol sy'n cefnogi dysgwyr ac ymarferwyr mewn rolau cefnogi dysgwyr yn ansicr ynglŷn â lefel y cymhwyster sydd ei hangen arnynt ar gyfer y gwaith a wnânt. Yn sgil hyn, mae llawer ohonynt yn ymgymryd â chymwysterau nad ydynt yn addas ar gyfer eu rôl swydd neu lefel bresennol eu cymhwyster a'u harbenigedd.

20 Mae bron pob un o arolygiadau perthnasol Estyn yn nodi safon uwch o addysgu a dysgu mewn dosbarthiadau sy'n cael eu haddysgu gan athrawon sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad perthnasol mewn ASO a SSIE. Mae bron pob rheolwr ASO a SSIE yn honni y bu gwelliant mewn cyfraddau cadw a chyrhaeddiad dysgwyr mewn dosbarthiadau lle mae'r athro wedi ennill cymwysterau addysgu ASO a SSIE, ac ar ôl cael hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.

21 Mae bron pob un o'r ymarferwyr mewn ASO yn addysgu, yn cyflwyno, yn asesu neu'n cefnogi llythrennedd a rhifedd fel ei gilydd fel rhan o'u rôl swydd. Mae mwyafrif o'r rhai sy'n addysgu llythrennedd a rhifedd yn hyderus iawn yn eu medrau yn y ddau bwnc hyn er bod data gan Sgiliau Sylfaenol Cymru, ac ymatebion i holiadur Estyn, yn dangos bod llawer mwy o athrawon wedi dilyn cymwysterau lefel 3 a lefel 4 mewn llythrennedd na mewn rhifedd.

22 Mae llawer o ymarferwyr wedi nodi bod rhifedd yn faes lle mae angen datblygu eu medrau ymhellach. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ymarferwyr wella eu medrau rhifedd gan nad oes gan y rhan fwyaf o ddarparwyr staff sy'n gymwys i gyflwyno datblygiad proffesiynol parhaus mewn rhifedd.

23 Mae lleiafrif o adroddiadau arolygu Estyn yn nodi prinder o ran nifer yr athrawon sydd â chymwysterau ASO a SSIE penodol lefel uwch. Mae llawer o ymarferwyr yn wynebu rhwystrau rhag dilyn cymwysterau lefel 3, lefel 4 a lefel 5. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau anghysbell, y gost, y baich gwaith a'r aseiniadau hir. Nid yw ymarferwyr sydd â chymwysterau a phrofiad presennol yn siŵr sut bydd y rhain yn cael eu hystyried os byddant yn dilyn tystysgrif lefel 4 neu ddiploma lefel 5. Mae hyn yn arwain at amharodrwydd ymhlith ymarferwyr i ymgymryd â'r cymwysterau.

24 Mae lleiafrif o ymarferwyr sydd wedi dilyn cwrs lefel 3 wedi elwa'n dda ar y strategaethau addysgu ymarferol y mae'r cwrs hwn yn eu cynnig. Fodd bynnag, mae llawer o gyflogwyr ac ymarferwyr yn dibynnu gormod ar gymhwyster lefel 3 lle gallai

cymhwyster arall fod yn fwy priodol ar gyfer yr ymarferwr.  Mae lleiafrif o athrawon yn dilyn y cwrs hwn er y byddai'r lefel 4 neu'r lefel 5 uwch yn fwy priodol ar gyfer eu medrau a datblygu eu gyrfa.  Mae mwyafrif o hyfforddwyr, aseswyr, athrawon galwedigaethol ac athrawon cymorth dysgwyr yn dilyn y cymhwyster lefel 3 er ei fod yn rhoi pwyslais ar addysgu grwpiau, ac nid yw hyn yn berthnasol i'w rolau swydd nhw.  Mae hyn yn golygu bod gan lawer o ymarferwyr mewn ASO a SSIE gymhwyster nad yw'n berthnasol i'w swydd ac nid yw'n cael llawer o effaith ar ansawdd profiad dysgu'r dysgwyr y maent yn eu haddysgu neu'n eu cefnogi.

25 Nid yw ansawdd cyrsiau hyfforddi athrawon ASO a SSIE yn gyson ledled Cymru. Mae rhai ymarferwyr o ddarpariaeth yn y gwaith yn newid cyrsiau oherwydd nad yw rhai darparwyr coleg yn deall eu hanghenion yn ddigon da.

26 Mae'r grantiau sydd ar gael gan Sgiliau Sylfaenol Cymru yn cyfrannu'n effeithiol iawn at hyfforddi llawer o ymarferwyr.  Fodd bynnag, nid yw llawer o ddarparwyr yn cynllunio cyrsiau hyfforddi athrawon ASO a SSIE yn effeithiol fel rhan o'u cwricwlwm. Maent yn cynllunio cyrsiau i fodloni'r gofynion am grantiau gan Sgiliau Sylfaenol Cymru.  Mae hyn yn golygu bod darparwyr yn trefnu llawer o gyrsiau ar fyr rybudd ac nid yw mwyafrif o ymarferwyr yn gallu cael gwybodaeth yn ddigon cyflym neu'n ddigon hawdd i wneud defnydd da o'r cyfleoedd sydd ar gael.  Mae darparwyr yn canslo llawer o gyrsiau yn sgil niferoedd isel.

27 Nid oes cysondeb yn lefel y ffioedd sy'n cael eu gosod gan wahanol ddarparwyr ar gyfer cyrsiau nad ydynt yn cael eu cefnogi gan grant Sgiliau Sylfaenol Cymru.  Mae cost uchel llawer o gyrsiau'n cyfyngu niferoedd yr ymarferwyr y gall llawer o ddarparwyr hyfforddiant eu cyflwyno ar gyfer hyfforddiant.

28 Mae mwyafrif o golegau yn darparu cyrsiau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol ac amserol ar gyfer ASO a SSIE.  Fodd bynnag, yn aml, nid oes gan ddarparwyr dysgu yn y gwaith arbenigedd o fewn eu cwmnïau i gynnal cyrsiau mewnol ar gyfer addysgu ASO a SSIE, ac nid yw cyrsiau sy'n cael eu rhedeg gan golegau ar gael iddynt yn ddigonol.

29 Yn yr achosion gorau, mae rhai ymarferwyr yn gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth i gyflwyno cyrsiau hyfforddiant a datblygiad staff.  Maent yn nodi anghenion hyfforddiant yn dda ac yn cyflogi hyfforddwyr a siaradwyr profiadol sydd â chymwysterau da i gyflwyno cyrsiau penodol i ymarferwyr o fwy nag un sefydliad.

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A1 bennu safonau cymhwyster cenedlaethol ar gyfer addysgu, cyflwyno a chefnogi ASO a SSIE yng Nghymru, sy'n diffinio'n glir y rolau amrywiol a'r cymwysterau perthnasol sydd eu hangen ar gyfer pob un;

A2 sicrhau bod llwybrau i gymwysterau yn glir ac yn ddiamwys ar gyfer pob un o'r staff sy'n addysgu, yn cyflwyno, yn cefnogi neu'n asesu ASO a SSIE;

A3 sefydlu system gadarn ar gyfer achredu dysgu blaenorol (ADB) sy'n cydnabod cymwysterau a phrofiad presennol;

A4 diwygio'r meini prawf mynediad a'r cynnwys ar gyfer cymhwyster lefel 3 yng Nghymru, i'w wneud yn fwy perthnasol i'r holl rolau ymarferwyr amrywiol o fewn ASO a SSIE;

A5 cefnogi modelau partneriaeth ar gyfer cyflwyno cymwysterau hyfforddi athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus i ddefnyddio arbenigedd o amrywiaeth o ddarparwyr ac i sicrhau bod pob darparwr yn cael hawl gyfartal i gyrsiau;

A6 diwygio'r system ar gyfer dyrannu grantiau hyfforddi i wneud hyfforddiant yn fwy hygyrch i ddarparwyr hyfforddiant a darparwyr eraill nad ydynt yn golegau; a

A7 chynyddu'r cyfleoedd i athrawon ddatblygu eu medrau mewn addysgu rhifedd.

**Dylai darparwyr:**

A8 barhau i hyrwyddo a chefnogi cymwysterau perthnasol ar gyfer pob ymarferwr sy'n addysgu, yn cyflwyno, yn cefnogi ac yn asesu ASO a SSIE;

A9 nodi a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cyflwyno hyfforddiant ar y cyd mewn partneriaeth â darparwyr eraill i sicrhau ystod ehangach o gyfleoedd ar gyfer pob ymarferwr i ddatblygu eu medrau; a

A10 pharhau i gynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol a phenodol ar gyfer ymarferwyr ASO a SSIE.

## Fframweithiau cymhwyster a statws athro cymwys

30 Nid oes fframwaith cymhwyster cenedlaethol cydnabyddedig a strwythuredig yng Nghymru ar gyfer addysgu, cyflwyno, asesu a chefnogi dysgwyr ASO a SSIE. Mae Sgiliau Sylfaenol Cymru yn argymell ac yn hyrwyddo tystysgrif lefel 4 a diploma lefel 5 fel y cymwysterau gofynnol ar gyfer athrawon sy’n arbenigwyr mewn addysgu llythrennedd, rhifedd a SSIE. Fodd bynnag, nid oes diffiniad cyson o’r rôl arbenigol rhwng darparwyr na diffiniad cydnabyddedig o’r modd y mae’r rôl arbenigol hon yn wahanol i rôl athro cymwys.

31 Nid oes canllawiau yng Nghymru sy’n datgan yn glir y cymwysterau y mae angen i athro/athrawes eu cael er mwyn cael ei (h)ystyried yn gymwys i addysgu ASO a SSIE, ac nid oes ystadegau ar gael i ddarparu mesur dibynadwy o’r niferoedd a allai fod yn gymwys. Mae llawer o gyflogwyr yn derbyn bod athrawon sydd â lefel 3 yn gymwys, tra bod rhai yn ystyried mai cymwysterau lefel 4 neu lefel 5 yw’r safon ofynnol. Mae’r term ‘cymwys’ yn peri mwy o ddryswch gan fod y rhan fwyaf o athrawon ASO sy’n addysgu llythrennedd a rhifedd yn meddu ar gymhwyster lefel uwch mewn un o’r pynciau hyn yn unig. Mewn dosbarthiadau llythrennedd a rhifedd gallu cymysg, gallai hyn olygu eu bod yn gymwys i addysgu hanner y dosbarth ond nid yr hanner arall. Mae hyn yn arwain at ddryswch ymhlith cyflogwyr pan ofynnir iddynt am ystadegau ar nifer yr ymarferwyr cymwys y maent yn eu cyflogi a lefel eu cymwysterau.

32 Nid yw strwythur cyfredol y cymwysterau ar gyfer ymarferwyr ASO a SSIE yn gweddu’n ddigon da â’r rolau swydd amrywiol. Mae hyfforddwyr ac aseswyr yn y gwaith, ac athrawon galwedigaethol sy’n cefnogi dysgwyr ac ymarferwyr mewn rolau cymorth dysgwyr, yn ansicr ynglŷn â lefel y cymhwyster sydd ei hangen arnynt ar gyfer y gwaith a wnânt. Yn sgil hyn, mae llawer ohonynt wedi dilyn cymwysterau nad ydynt yn addas ar gyfer eu rôl swydd neu lefel bresennol eu cymhwyster ac arbenigedd.

## Cymwysterau lefel 3, lefel 4, a lefel 5

33 Mae bron pob un o arolygiadau Estyn o ddosbarthiadau ASO a SSIE yn 2008-2009 wedi nodi safon uwch o addysgu a dysgu mewn dosbarthiadau sy'n cael eu haddysgu gan athrawon sydd â chyfuniad o gymwysterau a phrofiad perthnasol.

34 Mae Dyfarniad Safonau Ansawdd Sgiliau Sylfaenol Cymru a Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn yn hyrwyddo'r angen am weithlu sydd â chymwysterau addas. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr a chyflogwyr yn cefnogi'r angen hwn, ond nid oes datganiad cenedlaethol clir sy'n gofyn am lefel benodol o gymhwyster i addysgu ASO a SSIE. Nid yw cyrsiau lefel 4 a lefel 5 ar gael yn hawdd ar gyfer athrawon ac mae diffyg cyrsiau perthnasol ar gyfer aseswyr, athrawon galwedigaethol ac athrawon cymorth dysgwyr. Mae hyn yn golygu mai cwrs lefel 3 yn aml yw'r unig ddewis sydd ar gael ar gyfer ymarferwyr.

35 I leiafrif o athrawon sy'n dilyn cwrs lefel 3, byddai cwrs uwch lefel 4 neu lefel 5 yn fwy priodol ar gyfer eu medrau a datblygu eu gyrfa. Nid oes cwrs sydd wedi'i deilwra i'w rolau swydd ar gael i fwyafrif o hyfforddwyr, aseswyr, athrawon galwedigaethol ac athrawon cymorth dysgwyr, ac maent yn dilyn cymhwyster lefel 3 er ei fod yn rhoi pwyslais ar addysgu grwpiau, ac nid yw hyn yn berthnasol i'w rolau swydd. Mae hyn yn golygu bod gan lawer o ymarferwyr mewn ASO a SSIE gymhwyster nad yw'n berthnasol i'w swydd ac felly, ychydig o effaith a gaiff ar ansawdd profiad dysgu'r dysgwyr y maent yn eu haddysgu neu'n eu cefnogi.

36 Mae Sgiliau Sylfaenol Cymru yn cefnogi hyfforddiant a datblygiad ymarferwyr yn dda trwy eu Cynllun Grant Hyfforddi Oedolion. Maent yn cynnig grantiau i ddarparwyr i gynnal cyrsiau fel ffordd o ddarparu cyfleoedd a chymorth i ymarferwyr ddilyn cymwysterau addas a pherthnasol. Yn 2009–2010, bydd Sgiliau Sylfaenol Cymru yn cefnogi cyfanswm o 92 o gyrsiau. Sesiynau codi ymwybyddiaeth fydd 35% o'r rhain; bydd 32% yn lefel 2; 28% yn lefel 3; a 5% yn lefel 4. Mae llawer o ddarparwyr yn cynllunio cyrsiau i fodloni'r gofynion ar gyfer grantiau gan Sgiliau Sylfaenol Cymru yn hytrach na chynllunio cyrsiau hyfforddi athrawon ASO a SSIE fel rhan o'u cwricwlwm cyffredinol ar gyfer datblygu'r gweithlu. Mae hyn yn golygu bod darparwyr yn trefnu llawer o gyrsiau ar fyr rybudd i ymateb i ofynion y grantiau ac nid yw mwyafrif o ymarferwyr yn gallu cael gwybodaeth yn ddigon cyflym neu'n ddigon hawdd i wneud defnydd da o'r cyfleoedd sydd ar gael. O ganlyniad, mae darparwyr yn canslo llawer o gyrsiau oherwydd niferoedd isel.

## Cyflwyno cymwysterau addysgu ASO a SSIE

37 Mae rhai darparwyr yn cynnig cyrsiau sy’n cael eu cynllunio ymhell ymlaen llaw fel rhan o’u cynllunio cwricwlwm cyffredinol ac nad ydynt yn ddibynnol ar Gynllun Grantiau Sgiliau Sylfaenol Cymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gysondeb yn lefel y ffioedd sy’n cael eu gosod gan wahanol ddarparwyr ar gyfer y cyrsiau hyn ac mae cost uchel llawer o gyrsiau’n cyfyngu niferoedd yr ymarferwyr y gall darparwyr dysgu yn y gwaith eu cyflwyno ar gyfer hyfforddiant.

38 Mae’r rhan fwyaf o ddarparwyr hyfforddi athrawon ASO a SSIE yn cynnig y cymhwyster lefel 2 neu lefel 3 gyda thri darparwr yn unig yng Nghymru yn cynnig y cymhwyster lefel 4 yn 2009-2010. Caiff cyfran uwch o’r cyrsiau ei chynnig mewn llythrennedd yn hytrach na mewn rhifedd.

39 Mae bron pob un o’r darparwyr yn addysgu cymhwyster lefel 2 yn effeithiol. Mae darparwyr yn defnyddio’r cwrs i hyfforddi gwirfoddolwyr a chodi ymwybyddiaeth am ASO a SSIE. Hwn yw’r cwrs sy’n cael ei gyflwyno amlaf ac mae bron pob un o’r darparwyr yn teimlo bod y deilliannau’n dda iawn. Mae’n cyflawni nodau codi ymwybyddiaeth yn effeithiol iawn ac yn darparu cefndir da iawn i gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion medrau sylfaenol neu anghenion SSIE.

40 Mae rhai darparwyr coleg yn darparu ar gyfer anghenion ymarferwyr dysgu yn y gwaith yn dda ac mae rhai aseswyr yn y gwaith a chwmnïau hyfforddi yn elwa ar gymorth da iawn gan ddarparwyr a hyfforddwyr athrawon. Yn yr achosion gorau, mae darparwyr yn dod o hyd i leoliadau addas ar gyfer athrawon i fodloni gofynion cyrsiau ar gyfer addysgu grwpiau. Mewn ychydig iawn o achosion, mae athrawon yn elwa’n dda ar gyfleoedd sy’n cael eu trefnu gan ddarparwyr i gynrychiolwyr cyrsiau gysgodi ei gilydd ac athrawon mwy profiadol. Fodd bynnag, mae rhai ymarferwyr o ddarpariaeth yn y gwaith yn newid cyrsiau oherwydd nad yw rhai darparwyr coleg yn deall eu hanghenion yn ddigon da.

41 Nid yw ansawdd cyflwyno cyrsiau lefel 3 ASO a SSIE yn gyson ledled Cymru. Mae gofynion mynediad i ymarferwyr allu mynd ar y cyrsiau yn amrywio rhwng darparwyr. Mae lleiafrif o ddysgwyr sy’n dilyn cwrs lefel 3 yn cael anhawster yn cwblhau’r aseiniadau oherwydd nad oes ganddynt gymwysterau cychwynnol perthnasol. Mae gan ymarferwyr ar lefel 3 gymhwyster TAR eisoes ac maent wedi cwblhau’r unedau addysgu generig fel rhan o’r cwrs hwn. Nid oes unrhyw gysondeb yn y ffordd y mae gwahanol ddarparwyr yn achredu’r dysgu blaenorol hwn. Mae hyn yn arwain at ddiffyg cymhelliant ac yn rhwystro ymarferwyr rhag cwblhau’r cymhwyster a’i ennill.

## Rhwystrau i ymarferwyr sy'n dilyn cymwysterau ASO a SSIE

42 Mynediad anfoddhaol i gyrsiau addas yw un o'r prif rwystrau i ymarferwyr rhag dilyn cyrsiau a chymwysterau. Mae bron pob darparwr hyfforddiant yn ei chael yn anodd cael lle ar gyrsiau lefel 3. Mewn rhai mannau, mae cyflogwyr yn gwneud sawl ymholiad gyda darparwyr lleol cyn dod o hyd i gwrs addas ar gyfer cyflogeion.

43 Cyfyngedig yw'r mynediad i gyrsiau lefel 4 a lefel 5 mewn ASO a SSIE. Prifysgol Cymru, Casnewydd yw prif ddarparwr y cwrs lefel 5 ASO a SSIE. Ychydig iawn o golegau sy'n cynnig cymwysterau lefel 4 neu lefel 5 oherwydd costau staffio a chynnal y cwrs ar gyfer y niferoedd bach sy'n gwneud cais. Mae Coleg Menai (sy'n cael cyllid grant Sgiliau Sylfaenol Cymru trwy drefniant rhyddfraint gyda Phrifysgol Cymru, Casnewydd) yn brif ddarparwr y cymwysterau SSIE ar lefel 4 a lefel 5 yng Ngogledd Cymru. Mae athrawon mewn ardal ddaearyddol sy'n agos at y lleoliadau ymhlith y rhan fwyaf sy'n mynd ar gyrsiau ASO a SSIE.

44 Mae 62% o athrawon ASO a 58% o athrawon SSIE sydd eisiau dilyn cymwysterau lefel 4 neu lefel 5 yn dweud bod pethau sy'n eu rhwystro rhag cwblhau'r cwrs yn cynnwys amseriad y cyrsiau a baich rhy drwm o aseiniadau. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo'r athro/athrawes yn gyflogai amser llawn. Mae lleiafrif o'r cyflogeion rhan-amser yn amharod i ymgymryd â llawer o hyfforddiant ychwanegol heb unrhyw dâl ychwanegol am yr amser y mae'n rhaid iddynt ei aberthu.

## Datblygiad proffesiynol parhaus

45 Mae mwyafrif o golegau yn darparu cyrsiau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ASO a SSIE perthnasol ac amserol ar gyfer athrawon, aseswyr, athrawon galwedigaethol ac athrawon cymorth dysgwyr. Fodd bynnag, mae rhai adrannau medrau sylfaenol a SSIE wedi'u cyfyngu o ran nifer y cyrsiau medrau sylfaenol a SSIE penodol y gallant eu cyflwyno yn sgil blaenoriaethu hyfforddiant arall.

46 Ychydig iawn o ddarparwyr hyfforddiant yn y gwaith sy'n cynnal cyrsiau DPP. Nid oes gan lawer ohonynt arbenigedd o fewn eu cwmnïau eu hunain i gynnal cyrsiau mewnol ac nid yw'r cyrsiau sy'n cael eu cynnal gan golegau ar gael iddynt.

47 Mae llawer o reolwyr adrannau ASO a SSIE yn defnyddio ystod dda o strategaethau i nodi anghenion DPP athrawon. Mae'r rhain yn cynnwys gwerthusiadau ac arsylwadau o ddosbarthiadau. Fodd bynnag, nid oes gan nifer fach iawn strategaethau ar gyfer nodi, cofnodi a diwallu anghenion hyfforddi athrawon rhan-amser.

48 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n defnyddio athrawon ASO a SSIE mwy cymwys a mwy profiadol i gyflwyno DPP mewnol. Bu cynnydd yng nghanran y cyrsiau DPP sy'n cael eu hariannu gan grantiau Sgiliau Sylfaenol Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mewn ASO, cododd hyn o 20% yn 2007/2008 i 30% yn 2008/2009 ac mewn SSIE, o 15% yn 2007/2008 i 37% yn 2008/2009. Y rheswm am hyn yw ymwybyddiaeth gynyddol o'r canllawiau grant a'r ffaith fod ffurflenni cais am grant wedi cael eu dosbarthu'n gynharach yn ystod blwyddyn academaidd 2008/2009 gan Sgiliau Sylfaenol Cymru.

49 Mewn nifer fach iawn o ardaloedd yng Nghymru, mae darparwyr colegau ac awdurdodau lleol yn gweithio'n dda iawn mewn partneriaeth i gyflwyno DPP effeithiol i ystod eang o ymarferwyr. Mae'r dull hwn yn cyfuno manteision hyfforddiant mewnol a rhanbarthol yn dda iawn. Mae'n hyrwyddo cyrsiau undydd mewn lleoliadau lleol gyda'r cyfle ar gyfer rhannu syniadau ac arfer orau. Mewn nifer fach iawn o achosion, mae darparwyr yn defnyddio grant Sgiliau Sylfaenol Cymru yn effeithiol iawn i ddod â hyfforddwyr a siaradwyr allanol i mewn. Fodd bynnag, nid yw darparwyr hyfforddiant yn elwa'n ddigon da ar hyfforddiant partneriaeth.

**Mae darparwyr yn ne ddwyrain Cymru yn defnyddio partneriaethau'n dda iawn i hyrwyddo hyfforddiant a datblygiad staff.**

Mae rheolwyr a chydlynwyr darpariaeth ASO a SSIE yn nodi anghenion hyfforddi athrawon yn effeithiol iawn trwy arsylwadau a chyfarfodydd gyda staff. Maent yn trafod y canfyddiadau mewn cyfarfodydd rheolwyr ac yn datblygu rhaglenni hyfforddi cynlluniedig a pherthnasol. Maent yn gwneud cais am grantiau gan Sgiliau Sylfaenol Cymru fel partneriaeth. Mae hyn yn galluogi iddynt brynu siaradwyr a hyfforddwyr allanol ar gyfer testunau penodol. Enghraifft o hyn yw'r hyfforddiant datblygu medrau strwythuredig, math Dyslecsia a ddarperir gan LLU+.

Maent yn cynnal digwyddiadau hyfforddi mewn lleoliadau lleol sy'n ganolog i'r bartneriaeth ac yn rhoi ystyriaeth dda iawn i anghenion staff rhan-amser ac amser llawn.

Mae rheolwyr yn monitro effaith hyfforddiant trwy arsylwadau mynych a rhaglenni gwerthuso staff.

## Dadansoddiad o ymatebion i'r holiadur athrawon

50 At ei gilydd, mae bron pob un o'r ymarferwyr mewn ASO a SSIE yn teimlo bod gwybodaeth a hyfforddiant arbenigol yn hanfodol i gyflwyno gwersi ASO a SSIE yn effeithiol i oedolion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon a hyfforddwyr yn fodlon dilyn cyrsiau hyfforddi i wella eu medrau.

51 Mae'r rhan fwyaf o athrawon ASO yn teimlo mai hyder a gwybodaeth well am theori ac addysgu llythrennedd a rhifedd yw prif fanteision dilyn cymwysterau lefel 3 a lefel 4. Mae llawer o athrawon yn datblygu dulliau newydd o addysgu oedolion ac yn ennill mwy o amrywiaeth o syniadau ar gyfer addysgu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae rhai athrawon yn gweld y cyrsiau'n ffordd ddefnyddiol o adolygu medrau presennol.

52 Mae athrawon SSIE yn teimlo eu bod yn elwa ar wybodaeth adnewyddol, hyder cynyddol a strategaethau addysgu newydd. Mae rhai athrawon SSIE yn ennill ymwybyddiaeth well o anghenion dysgwyr.

53 Mae rhai athrawon ASO a SSIE wedi bod yn y proffesiwn ers sawl blwyddyn ac eisoes wedi cael tystysgrif City and Guilds 9285 ar lefel 3 neu 4. Mae mwyafrif o'r athrawon hyn yn teimlo ei bod yn afresymol iddynt ddilyn mwy o gymwysterau i fodloni'r fframwaith cymhwyster newydd. Maent yn teimlo nad yw'r modelau ar gyfer y cymwysterau newydd yn rhoi digon o ystyriaeth i'w profiad, eu medrau a'u cymwysterau blaenorol.

54 Mae bron pob un o'r athrawon ASO a SSIE yn credu bod disgwyl iddynt ennill cymhwyster lefel 4 neu lefel 5. Fodd bynnag, mae mwyafrif o aseswyr mewn darpariaeth yn y gwaith ac athrawon mewn meysydd galwedigaethol sy'n cefnogi dysgwyr ASO a SSIE yn ansicr ynglŷn â lefel y cymhwyster sydd ei hangen arnynt. Mae llawer o'r ymarferwyr hyn yn teimlo nad yw'r cymwysterau cyfredol yn diwallu eu hanghenion hyfforddi a datblygu yn effeithiol. Maent yn ei chael yn anodd bodloni gofynion y cymwysterau ar gyfer addysgu grwpiau o ddysgwyr gan eu bod fel arfer yn cefnogi dysgwyr ar sail un i un.

55 Mae bron pob un o'r ymarferwyr a'r darparwyr yn teimlo bod y cymhwyster lefel 3 yn addysgu'r medrau ymarferol ar gyfer addysgu ASO a SSIE yn dda. Mae athrawon sydd â diddordeb mewn addysgu ASO a SSIE fel gyrfa yn gweld ei fod yn gyswllt da rhwng cyrsiau lefel 2 a chyrsiau damcaniaethol lefel 4 a lefel 5. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o athrawon ar y cwrs lefel 3 a mwyafrif y rhai sy'n cyflwyno'r cwrs yn teimlo bod y cynnwys a'r baich gwaith yn uwch na chymhwyster lefel 3 safonol. Mae'r rhai sydd eisoes wedi ennill cymhwyster TAR cyn dechrau'r cwrs hwn yn gweld bod gorgyffwrdd o ran dysgu mewn unedau generig cychwynnol. Yn sgil hyn, mae lleiafrif o ddysgwyr yn colli diddordeb a chymhelliant.

56 Mae darparwyr y cwrs lefel 3 yn teimlo ei fod yn fwy priodol i'r ymarferwyr hynny sydd eisoes wedi ennill gradd neu gymhwyster lefel uwch. Maent yn teimlo nad oes gan leiafrif o ddysgwyr sy'n dilyn y cwrs y lefelau perthnasol o lythrennedd a rhifedd i gwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus.

57 Gall tua hanner yr athrawon roi enghreifftiau penodol o'r modd y mae hyfforddiant a datblygiad staff wedi gwella'r safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys dysgwyr yn ennill cymwysterau mewn cyfnod byrrach a dysgu medrau newydd yn fwy effeithiol. Dywed rheolwyr fod mwy o ddysgwyr yn aros ar gyrsiau ac yn cwblhau eu nodau dysgu. Fodd bynnag, nid oes gan rai athrawon strategaethau effeithiol ar waith i asesu effaith hyfforddiant a datblygiad staff ar eu dysgwyr.

58 Mae llawer o athrawon mewn SSIE yn cael syniadau addysgu newydd o DPP ac mae rhai yn ennill medrau penodol fel ymwybyddiaeth well o strategaethau ar gyfer addysgu ynganu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon mewn ASO yn diweddaru eu gwybodaeth trwy weithgareddau DPP. Mae llawer ohonynt yn dysgu medrau ar gyfer gwneud eu haddysgu yn fwy amrywiol mewn sesiynau. Mae rhai athrawon yn ennill dealltwriaeth well o ofynion cymwysterau a dulliau asesu. Yn sgil hyn, mae cymwysterau ar gyfer ASO a SSIE yn gweddu'n well i anghenion dysgwyr.

59 Mae angen amrywiaeth eang o DPP ar diwtoriaid SSIE yn y dyfodol. Mae niferoedd sydd bron yn gyfartal o athrawon yn teimlo bod angen mwy o hyfforddiant arnynt ar ddefnyddio cyfrifiaduron mewn dosbarthiadau, seinyddiaeth, dinasyddiaeth, gwahaniaethu mewn dosbarthiadau, gwahaniaethau ieithyddol mewn cenedligrwydd ac addysgu dysgwyr cyn-mynediad.

60 Mae athrawon ASO yn teimlo bod yr angen mwyaf o ran hyfforddiant mewn addysgu rhifedd. Mae hyn yn arbennig o wir am addysgu dysgwyr lefel 2. Mae llawer ohonynt yn teimlo bod angen iddynt wella mewn addysgu'r cysyniadau y tu ôl i gyfrifiadau mathemategol. Ychydig iawn o ddarparwyr sy'n cynnal cwrs DPP mewn rhifedd oherwydd diffyg arbenigedd yn y maes hwn.

61 Mae tua hanner yr athrawon ASO a ymatebodd i arolwg Estyn yn teimlo bod angen mwy o fedrau arnynt mewn defnyddio TGCh mewn dosbarthiadau ac mewn addysgu dysgwyr ag anghenion penodol. Mae lleiafrif yn gofyn am fwy o hyfforddiant mewn addysgu darllen i ddechreuwyr ac ysgrifennu i ddechreuwyr.

62 Mae'n well gan athrawon mewn ASO a SSIE gyrsiau mewnol, cyrsiau byr, cyrsiau rhanbarthol a digwyddiadau undydd. Mae lleiafrif o athrawon yn elwa ar y rhwydweithio sy'n cael ei hyrwyddo gan ddigwyddiadau hyfforddi rhanbarthol lle maent yn cael y cyfle i gyfarfod ag ymarferwyr eraill. Mae athrawon SSIE yn benodol yn teimlo eu bod yn elwa ar gyfnewid syniadau ac arfer orau.

## Atodiad 1: Crynodeb o ymatebion athrawon i'r holiadur

Anfonwyd holiaduron at ddarparwyr i bennu safbwynt ymarferwyr ynglŷn ag ansawdd a pherthnasedd hyfforddiant staff i gyflwyno ASO a SSIE. Defnyddiwyd canlyniadau'r holiaduron hyn i gefnogi'r ymchwil o adroddiadau arolygu a dadansoddiadau data.

**Addysg sylfaenol i oedolion**

Ymatebodd 85 o athrawon i'r holiadur:


- 46 o golegau;
- 25 o awdurdodau lleol;
- 9 o ddarparwyr hyfforddiant;
- 4 arall; ac
- 1 ddim wedi nodi.

**Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill**

Ymatebodd 44 o athrawon i'r holiadur:

- 35 o golegau;
- 8 o awdurdodau lleol; ac
- 1 ddim wedi nodi.

### 1) Rhwystrau rhag cwblhau cymwysterau lefel 3 a lefel 4/5





## 2) Hyder athrawon yn eu medrau i addysgu llythrennedd, rhifedd a SSIE

| | Hyderus iawn | Gweddol hyderus | Ddim yn hyderus iawn |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Llythrennedd | 55% | 37% | 8% |
| | | | |
| Rhifedd | 66% | 30% | 4% |
| | | | |
| SSIE | 66% | 34% | |

(Canrannau wedi'u seilio ar nifer yr athrawon a atebodd y cwestiwn hwn)

## 3) Hoff fodel cyflwyno ar gyfer hyfforddiant a datblygiad staff



## Geirfa/cyfeiriadau

| | |
|---|---|
| **ASO** | Addysg Sylfaenol i Oedolion |
| **DPP** | Datblygiad proffesiynol parhaus |
| **FENTO** | Y Sefydliad Hyfforddiant Cenedlaethol Addysg Bellach (FENTO) yw'r sefydliad hyfforddiant cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu'r gweithlu ledled y DU yn y sector addysg bellach. www.fento.org.uk |
| **Fforwm** | Dyma'r sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli pob un o'r 24 coleg a sefydliad addysg bellach (AB) yng Nghymru. Cafodd Fforwm ei ail-frandio fel **ColegauCymru / CollegesWales** yn Nhachwedd 2009. www.fforwm.ac.uk |
| **LLU+** | Uned Iaith a Llythrennedd (Prifysgol South Bank) |
| **LLUK** | Dysgu Gydol Oes yn y DU. Dyma'r cyngor sgiliau sector annibynnol sy'n cael ei arwain gan gyflogwyr sy'n gyfrifol am ddatblygiad proffesiynol staff sy'n gweithio yn y sector dysgu gydol oes yn y DU. www.lluk.org |
| **Sgiliau Sylfaenol Cymru** | Mae ganddo'r pirf gyfrifoldeb am weithredu Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri, y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol i Gymru o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| **SSIE** | Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill |
| **SVUK** | Standards Verification UK yw is-gwmni Dysgu Gydol Oes yn y DU sy'n gyfrifol am wirio hyfforddiant cychwynnol i athrawon |

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Gill Sims AEM | Awdur |
| Rachael Bubalo AEM | Aelod tîm |